# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 17eg Medi, 2019 at 10.00 am**

| Councillors Present | Officers in Attendance |
|---|---|
| County Councillor T.Thomas (Chairman)<br>County Councillor (Vice Chairman)<br><br>County Councillors: L.Brown, M.Groucutt, L.Jones, M.Lane, M. Powell and P.Pavia<br><br>Also in attendance County Councillor(s): | Will Mclean, Chief Officer for Children and Young People<br>Sharon Randall-Smith, Head of Achievement and Attainment<br>Matthew Gatehouse, Head of Policy and Governance<br>Nikki Wellington, Finance Manager<br>Tyrone Stokes, Accountant |

**APOLOGIES:** Councillors D. Jones and J.Watkins

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Datganodd aelodau diddordebau di-ragfarn fel llywodraethwyr ysgol.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

   Nid oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

3. **Craffu chwarterol o Ddatganiad Alldro Monitro Cyfalaf a Refeniw 2018/19.**

   - Ledled yr awdurdod llawn rhagwelir diffyg refeniw net o £2.4m a chyflawnwyd 88% o arbedion cyllid. Mae gwasanaethau cymdeithasol plant yn rhagweld £2.3m o orwariant.
   - Mae lleoliadau allanol am blant sy'n derbyn gofal lawer yn fwy drud gan gynnwys costau cyfreithiol mwy.
   - Roedd yna orwariant am ran ganolog y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc o £391,000 a gorwariant Anghenion Dysgu Ychwanegol o £618,000. £275,000 o hyn oedd diffyg incwm o Mounton House.
   - Roedd yna ddiffyg incwm o glybiau brecwast

   Her Aelodau

   - Ceisiodd Aelodau manylder mwy ynglŷn â'r rhesymau tu ôl costau cynyddol lleoliadau plant sy'n derbyn gofal. Clywon nhw fod y tueddiadau'n adlewyrchu'r darlun cenedlaethol tra bod nifer o leoliadau'n cael eu penderfynu gan y llysoedd.
   - Holwyd Aelodau ynglŷn â'r nifer o ysgolion sydd â diffyg. Clywon nhw bod 14 ysgol â diffyg. Cafodd y wobr tâl yn ogystal â phensiynau eu cyllido'n llawn ar gyfer ysgolion ac nid oes wedi bod unrhyw adolygiadau i'r fformiwla cyllid teg dros nifer o flynyddoedd. Mae staff wedi bod yn gweithio â Chydweithredwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Phrifathrawon ar anghenion y plant er mwyn sicrhau y ceir yr effaith fwyaf posib gan y cyllid.
   - Gofynnodd yr Aelodau am y safle ynglŷn â'r cyllid diswyddo a beth allai'r effaith fod o gau Mounton House. Pan oedd cyngor wedi goruchwylio ysgolion yn cau yn y gorffennol

roedd yna gyllid canolog yn ymwneud â chostau diswyddo oherwydd taw amgylchiad arbennig yw hwn. Mae'r gyllideb yn cael ei hailgyflenwi pob blwyddyn.

Canlyniadau

- Archwiliodd aelodau'r adroddiad cyllideb a gofynnon nhw gyfres o gwestiynau i geisio sicrhad bod gweithrediadau priodol yn cael eu cymryd
- Cafwyd pryderon gan y pwyllgor ynglŷn â'r gwariant cynyddol yng ngofal cymdeithasol plant ond cafodd ei adnabod gan y pwyllgor ei fod yn anodd cyllidebu ar ei gyfer gyda nifer o ffactorau y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod

**4. Cyflwyniad ar ganlyniadau diweddaraf o ran  perfformiad ysgolion ar gyfer 2019.**

- Clywodd y pwyllgor o'r Prif Ymgynghorydd Her a Dirprwy Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA). Clywon nhw nad yw data asesiad Athrawon bellach yn cael eu defnyddio ar gyfer atebolrwydd ac nid ydynt yn cael eu cyfanredu i lefel awdurdod lleol. Mae data dal ar gael er mwyn hysbysu addysg, dysgu a her ar lefel ysgol.
- Clywodd aelodau sut y bydd y GCA yn adrodd perfformiad o dan y trefniadau newydd hyn sy'n cymharu ysgolion Sir Fynwy gydag eraill yn yr ardal GCA. Mae hyn wedi'i rhoi mewn cyd-destun gyda defnydd data prydau ysgolion am ddim.
- Mae'r tablau yn yr adroddiad yn galluogi GCA i ofyn cwestiynau o ysgolion yn archwilio'r rheswm pam efallai bod rhifau eithriadol yn bodoli ac i edrych ar gynlluniau datblygu ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn ymddwyn yn briodol.
- Mae'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'r GCA er mwyn sicrhau bod y cwestiynau hyn yn cael eu gofyn a'u hateb yn briodol. Mae lefel ychwanegol o archwiliad a sancsiwn yn digwydd trwy gynlluniau datblygu'r ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion.

Her Aelodau

- Heriodd Aelodau dilysrwydd defnyddio data prydau ysgolion am ddim fel dangosydd effaith lefelau incwm ar gyrhaeddiad. Clywodd y pwyllgor, er nad yw'n berffaith, y mesur gorau sydd ar gael yw hi a'i fod yn fwy dibynadwy gyda charfannau mwy.
- Ceisiodd Aelodau eglurdeb ynglŷn â sut y mae GCA yn cefnogi ysgolion er mwyn sicrhau bod asesiadau athrawon yn fanwl gywir. Adroddodd yr ymgynghorydd her bod cyfoedion yn cymedroli ar lefel glwstwr a thrwy gydol y flwyddyn.
- Codwyd pryderon gan Aelodau bod yr arddull newydd yn ei gwneud hi'n fwy anodd i rieni a phwyllgorau i archwilio er mwyn deall data cymharol. Clywodd Aelodau taw penderfyniad Llywodraeth Cymru yw hwn ac nid yw o fewn rhodd y prif swyddog.

Canlyniad

- Clywodd aelodau am, a chymeron nhw'r amser i ddeall ac i egluro, y ffordd newydd y bydd data ysgol yn cael eu cyflwyno bydd yn hysbysu ac yn sicrhau archwiliad parhaol o gyrhaeddiad addysgol.

**5. Craffu er mwyn cynnig barn ar y cynigion ar gyfer Ysgol Mounton House (i ddilyn).**

- Cafodd adroddiad ynglŷn â'r cynnig ei gyflwyno cyn ei ystyried yn y Cabinet.
- Crynhodd y prif swyddog nifer o weithiau i'r pwyllgor sut y bydd dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cefnogi yn y dyfodol.
- Mae swyddogion yn argymell cyhoeddi hysbysiadau ynglŷn â chau Ysgol Mounton House ar ddiwedd Awst 2020.

- Mae gan yr ysgol le ar gyfer 58 disgybl ac mae 15 o ddisgyblion yn ei mynychu ar hyn o bryd. Mae 8 o'r rheini yn byw yn Sir Fynwy, o'r rheini mae dau yn perthyn i awdurdodau eraill. Ychydig iawn o angen sydd am y fath yma o ysgol yn y sir.
- Y gost i redeg yr ysgol oedd £1.26M y flwyddyn hon a gall yr awdurdod adfer £471K. Mae yna gost net o £131K fesul disgybl sy'n cynyddu i £263K o fis Medi 2020 os yw'r ysgol yn aros ar agor. Mae hyn lawer yn uwch na'r tâl a wnaed i awdurdodau eraill ar gyfer lleoli. Adroddodd y Prif Swyddog nad yw'r argymhelliad hwn yn cael ei gymryd heb ystyriaeth neu heb unrhyw gymhelliant heblaw am ddarganfod y ddarpariaeth orau ar gyfer y disgyblion. Nid yw'r adeilad bellach yn addas i'w ddefnyddio ac nid yw dynodiad bellach yn cwrdd ag anghenion disgyblion yn Sir Fynwy.

<u>Her Aelodau</u>

- Ceisiwyd sicrwydd gan aelodau ynglŷn â dyfodol staff ac ynglŷn â sut y buasai darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd yn cael ei gwneud ar ôl cau. Clywodd aelodau y bydd cau'r ysgol cyn diwedd 2019-20 yn galluogi dau dymor ychwanegol i gynllunio ac i adnabod cyfleoedd addysg sy'n addas ar gyfer anghenion pob disgybl. Clywodd aelodau hefyd, yn dilyn penderfyniad a wnaed gan Gabinet, y buasai Polisi Amddiffyn Cyflogaeth y cyngor yn cael ei ddefnyddio er mwyn cefnogi a chwilio am gyfleoedd ar gyfer staff i gyd.
- Cyfeiriodd aelod at gynigion amgen er mwyn cefnogi'r ysgol i ledu ei darpariaeth er mwyn cwrdd ag angen Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n cynyddu yn y wlad fel trydydd opsiwn a mynegodd nad oedd y cynigion wedi cymryd ystyriaeth ddigonol o ymatebion yr ymgynghoriad. Clywodd aelodau bod yr adroddiad wedi ateb y themâu a godwyd o'r ymarfer ymgynghori mewn modd eglur. Clywon nhw hefyd bod angen gwario cyfanswm sylweddol o arian ar yr ysgol ac ni fuasai arddull o gario ymlaen a thrwsio yn addas. Cafodd yr ysgol ei hariannu yn y gorffennol ar y niferoedd o leoedd yn hytrach na'r nifer o ddisgyblion sydd ar y gofrestr sef y ffordd y mae ysgolion eraill yn cael eu cyllido. Mynegodd y Prif Swyddog nad yr awyrgylch a fydd yn cwrdd ag anghenion disgyblion sydd ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig oedd hwn ynghyd â disgyblion presennol ac ymrwymodd i ddatblygu darpariaeth yn y sir i blant 7 - 19 mlwydd oed sy'n gweld hi'n anodd mewn addysg oherwydd amryw o anghenion sylweddol a chymhleth eraill.
- Cwestiynodd aelodau os byddai'r arian yn cael ei wario ar adeiladu darpariaeth mewn ysgolion gwahanol. Clywodd y pwyllgor y dylid cwrdd ag anghenion disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol neu arbennig mewn darpariaeth brif ffrwd lle bynnag y bo modd, bod gan Sir Fynwy tair sylfaen adnodd ac y bydd y cyngor yn parhau i ddatblygu'r rhain. Serch hynny, bydd rhaid i rai disgyblion sydd ag anghenion hynod o arbennig a chymhleth cyrchu lleoliadau y tu fas i'r sir.
- Ymholodd Aelodau os ellir ceisio am gyllid ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain er mwyn adeiladu ysgol newydd. Cadarnhawyd nad oes posibilrwydd o fidiau ychwanegol am gyllid Band B oddi wrth Lywodraeth Cymru.
- Pleidleisiodd y pwyllgor ynglŷn ag argymell i Gabinet eu bod yn ystyried trydydd opsiwn, fel y'i cyflwynwyd gan y Cyng. Brown, i newid math y ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig yn Mounton House er mwyn cwrdd â'r angen Anghenion Dysgu Ychwanegol cynyddol, a chadarnhawyd y bleidlais.

<u>Canlyniadau</u>

- Adolygodd Aelodau'r cynigion a gofynnon nhw gyfres o gwestiynau i'r swyddogion. Bydd y cadeirydd yn mynychu Cabinet er mwyn cyflwyno barn y pwyllgor y dylid ystyried trydydd opsiwn

6. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol eu hadnabod fel cofnod gwir a chywir.

7. **Blaenraglen Waith Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc.**

Derbyniodd Aelodau'r blaenrhaglen gwaith.

Mynegodd y cadeirydd bod y Pennaeth yng Nghas-gwent wedi cynnig mynychu'r pwyllgor gyda'i ddirprwy er mwyn rhoi cyflwyniad ynglŷn â pherfformiad prydau ysgol am ddim. Gall y cyfarfod hwn hefyd ymchwilio nifer disgyblion Cas-gwent sy'n croesi'r ffin i Ysgol Wyedean.

8. **Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

Dydd Mawrth y 12fed o Dachwedd 2019 am 10:00yb.

**The meeting ended at 12.45 pm**